**SUN SUNDAR SARGAM GAN REENA ESMAIL**

CYNLLUN GWERSI I'R DOSBARTH CYNRADD gan Harpal Manku

GWYLIO'R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

**Y cyfansoddwr:** **REENA ESMAIL**

- Roedd Reena Esmail tua 17 oed pan sylweddolodd gyntaf ei bod eisiau bod yn gyfansoddwr.
- Blodeuodd ei doniau wrth iddi barhau i astudio cyfansoddi yn Ysgol Julliard yn Efrog Newydd.
- Astudiodd Reena Esmail gerddoriaeth Hindustani yn India hefyd.
- Mae ei cherddoriaeth yn aml yn dathlu'r modd y gellir cymysgu arddulliau cerddorol gwahanol; mae cerddoriaeth glasurol Hindustani a Gorllewinol yn gyfuniad poblogaidd i Reena Esmail.
- Mae Reena Esmail yn angerddol dros ddefnyddio cerddoriaeth i ddod â chymunedau ynghyd mewn gofod cydweithredol a bod yn fentor i gyfansoddwyr ifanc.

**Cerddoriaeth:** **SUN SUNDAR SARGAM**

- Darn i leisiau a sitar, offeryn llinynnol poblogaidd yng Ngogledd India, Pacistan a Bangladesh, yw darn Reena Esmail. Mae'r chwaraewr sitar yn eistedd i lawr i berfformio gan osod y sitar rhwng eu troed chwith a'u pen-glin dde.
- Fel Reena Esmail, mae cerddorion eraill wedi cymysgu synau Hindustani y sitar gyda cherddoriaeth wahanol. Mi wnaeth bandiau fel y Beatles a'r Rolling Stones gynnwys y sitar yn eu cerddoriaeth.
- Mae'r darn yn defnyddio'r geiriau *sun sundar sargam* sef, o'u cyfieithu, 'gwrandewch ar y nodau cerddorol hardd'.
- Mae Reena Esmail wedi seilio'i darn ar Raag Yaman, raga poblogaidd mewn cerddoriaeth Hindustani. Grŵp o nodau sy'n gweithio fel 'cynhwysion' ar gyfer byrfyfyrio ydi raga.

© BBC 2024

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*

- Gwrando a myfyrio ar y darn Sun Sundar Sargam
- Creu eu cerddoriaeth eu hunain gan ddefnyddio offerynnau a llais
- Perfformio fel ensemble
- Dysgu iaith gerddorol sy'n briodol i'r dasg

*Adnoddau sydd eu hangen:*

- Offerynnau taro yr ystafell ddosbarth (e.e. glockenspiels), allweddellau neu iPads gyda GarageBand
- Ystafell ddosbarth neu neuadd yr ysgol
- Adnoddau ategol (Adnoddau, Geiriau Sun Sundar Sargam)
- Drymiau Affricanaidd e.e. djembes neu bongos

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR (CA2)**

- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, defnyddio eu lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhuglder, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Gwrando gan roi sylw i fanylion a dwyn i gof synau gyda chof clust cynyddol
- Chwarae'n fyrfyfyr a chyfansoddi cerddoriaeth at amrywiaeth o ddibenion gan ddefnyddio dimensiynau cydberthynol cerddoriaeth

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**

- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth drwy, er enghraifft, ddefnyddio dynameg a mynegiant priodol
- Esbonio, gyda rhesymau cefnogol, beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella yn eu gwaith eu hunain ac eraill, gan ddefnyddio geirfa gerddorol briodol

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli, cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol
- Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwytnwch a hyblygrwydd
- Rwy'n gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Gwrando ac ymateb i'w cerddoriaeth eu hunain ac eraill, meddwl am, siarad am, a thrafod amrywiaeth o nodweddion o fewn cerddoriaeth y maen nhw'n ei chreu, yn ei pherfformio neu'n gwrando arni
- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o'r cof, o'r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau lleisiol ac offerynnol.

© BBC 2024

*Y gwersi yn gryno*

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

***GWERS 1:***

Gweithgareddau:

Gwrando ar Sun Sundar Sargam, sydd wedi'i ysbrydoli gan Raga Yaman (ynganu: raag-iaman)

Y myfyrwyr i fynegi sut mae'r gerddoriaeth yn gwneud iddynt deimlo a'r naws gan ddefnyddio lliw neu dynnu llun

Gwrando ar y canu a'r offerynnau a chwaraeir

Bwriad dysgu:

Gwerthfawrogi a deall cerddoriaeth o India

Cyfleu nodweddion darn o gerddoriaeth trwy ddefnyddio nodiant graffig a lliwiau gan gyfiawnhau eu dewisiadau gan ddefnyddio geirfa gerddorol

***GWERS 2:***

Gweithgareddau:

Gwrando ar Sun Sundar Sargam, sydd wedi'i ysbrydoli gan Raga Yaman

Bydd y myfyrwyr yn dysgu graddfeydd raga ac effeithiau'r drôn ar y darn

Bydd y myfyrwyr yn dysgu graddfeydd nodiannol y Raga Yaman

Bwriad dysgu:

Gwerthfawrogi a deall beth yw Raga Yaman

Gallu byrfyfyrio gan ddefnyddio nodau penodol

Perfformio alawon ar offerynnau cerdd a dilyn nodau ar gyfer y raga

***GWERS 3:***

Gweithgareddau:

Dysgu, creu a chwarae'r cylchoedd tala mewn 6 churiad ac 16 curiad

Bwriad dysgu:

Dysgu a deall curiadau cryf a gwan mewn talas Indiaidd

Creu darn o gerddoriaeth gan ddefnyddio drôn, raga a tala

Perfformio tala Tintal (cylch amser 16 curiad) gyda chof clust cynyddol

***GWERS 4:***

Gweithgareddau:

Perfformio mewn cyngerdd

Strwythuro'r syniadau yn ddarn sy'n defnyddio tair elfen cerddoriaeth Indiaidd gan ddefnyddio'r Raga Yaman a'r ymadroddion Sun Sundar Sargam

Bwriad dysgu:

Defnyddio elfennau drôn, raga a tala

Addasu dynameg a thraw yn ôl y raddfa raga

Gweithio fel grŵp i berfformio darn o gerddoriaeth

Cadw mewn amser, cyfathrebu a gwybod fy rôl yn y grŵp

© BBC 2024

# GWERS 1

Gwrando mewn lliw

*Bwriad dysgu*

- Gwerthfawrogi a deall cerddoriaeth o India
- Cyfleu nodweddion darn o gerddoriaeth trwy ddefnyddio nodiant graffig a lliwiau, gan gyfiawnhau dewisiadau gan ddefnyddio geirfa gerddorol

*Bydd angen*

- Recordiad sain Sun Sundar Sargam (yn barod i'w chwarae)
- Pensiliau lliwio, pinnau ffelt, paent
- Papur A4 ac A3

## 1. CYNHESU

Yn gyntaf, dylai'r myfyrwyr greu gwaith celf haniaethol yn seiliedig ar yr emosiynau y maen nhw'n eu dehongli yn Sun Sundar Sargam.

Rhowch set o liwiau a phapur A4 plaen i bob plentyn. Esboniwch y byddant yn gwrando ar Sun Sundar Sargam heb wybod dim amdano. Anogwch nhw i feddwl yn greadigol am yr hyn maen nhw'n ei glywed a defnyddio terminoleg gerddorol i gefnogi eu dewisiadau lliw, er enghraifft 'mae'r ddynameg yn uchel ac mae yn y cywair lleiaf, felly rydw i wedi defnyddio lliw cryf, tywyll fel du'.

Chwaraewch y trac sain Sun Sundar Sargam, gan wrando ar y trac cyfan. Rhowch bum munud i'r myfyrwyr ddechrau gwneud unrhyw siapiau gan ddefnyddio'r lliwiau.

Cwestiynau i'w hystyried:

- Oes yna gonsensws neu ydi pawb yn dewis lliwiau gwahanol?
- Os yw'r lliwiau a ddewiswyd yn wahanol, pa mor wahanol ydyn nhw a pham hynny, tybed?
- Beth yw naws y gerddoriaeth?
- Pa emosiynau rydych chi'n eu teimlo wrth wrando?

## 2. GWEITHGAREDD

Yr athro/athrawes i ddarllen geiriau Sun Sundar Sargam yn Hindi a rhoi ystyr y geiriau yn Gymraeg/Saesneg (gellir lawrlwytho'r geiriau yma).

Cyn gwrando ar y trac sain am yr eildro, gofynnwch i'r plant ystyried y canlynol:

© BBC 2024

**Cwestiynau allweddol**

- Pa offerynnau allwch chi eu clywed? Ateb (SITAR)
- Beth sy'n digwydd gyda'r cyflymder?
- O ble'r ydych chi'n meddwl y daw'r gerddoriaeth hon?
- Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?

Chwaraewch drac sain Sundar Sargam eto i'r dosbarth cyfan.

Gofynnwch i'r plant feddwl o ba wlad y daw'r gerddoriaeth a pham maen nhw'n meddwl hynny. Gofynnwch pa offerynnau mae'r plant yn meddwl y clywson nhw a gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r tempo (cyflymder) a'r ddynameg (uchder y sain).

Bydd y plant yn dysgu rhai o agweddau traddodiadol cerddoriaeth Indiaidd, gan gynnwys yr offerynnau, y prif elfennau i wrando amdanynt a'r dull mynegiant.

Bydd y plant yn dysgu geiriau Sun Sundar Sargam. Ewch i ganfod canllawiau sain Reena Esmail i'w chyfansoddiad, gan gynnwys sut i ynganu'r geiriau.

Eglurwch i'r plant mai'r sitar yw'r prif offeryn Indiaidd sy'n cael ei chwarae a bod y nodau sy'n cael eu chwarae gan y sitar a'u canu gan y cantorion yn dod o Raga Yaman.

**Sitar** – offeryn llinynnol yn cael ei chwarae â'i wddw i fyny fel gitâr.

**Raga** – set benodol o nodau a chwaraeir mewn trefn benodol, fel graddfa, yn aml ar sitar. Mae ragas yn cyfleu hwyliau penodol neu adegau arbennig o'r dydd a chawn ddysgu mwy am hyn yn y wers nesaf. Clywch y Raga Sitar o 5'53 Sun Sundar Sargam yma.

**Raga Yaman** – math o raga sy'n cynnwys pob un o'r saith nodyn mewn wythfed. Mae'n raga hwyrol a chwaraeir rhwng 7 a 10 o'r gloch sy'n rhamantus ei natur ac yn dynodi hapusrwydd, dedwyddwch, tawelwch ac ymgysegriad.

NODAU'R RAGA YAMAN

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ni | Re | Ga | Ma | Da | Ni | Sa* | Sa* | Ni | Da | Pa | Ma | Ga | Re | Sa |
| B | D | E | Gb | A | B | C | C | B | A | G | Gb | E | D | C |

Mynd i fyny'r raddfa
Aaroh yn Esgyn

Dod i lawr y raddfa
Avroh yn disgyn

Gyda'r dosbarth, trafodwch y Raga Yaman a pha deimlad neu emosiwn y mae myfyrwyr yn meddwl y gall fod yn ei gyfleu.

© BBC 2024

*Asesu cynnydd a dealltwriaeth myfyrwyr*

**Myfyrwyr sydd â dealltwriaeth sicr:** maen nhw'n gallu creu darlun graffig gan ddefnyddio lliwiau a disgrifio sut mae hyn yn cyfateb i adeiledd a naws y gerddoriaeth

**Myfyrwyr sy'n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** maen nhw'n gallu creu sgôr graffig fanwl sy'n dangos sawl nodwedd gerddorol, a chyfiawnhau eu dewisiadau lliw gan ddefnyddio terminoleg gerddorol

*Gwahaniaethu*

**Myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol:** efallai y bydd angen i'r rhain gael cyfle i weld lluniau graffig grwpiau eraill yn ystod y gweithgaredd a byddant yn gweithio mewn grwpiau gallu cymysg

**Myfyrwyr sy'n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** dylai'r rhain ddefnyddio terminoleg gerddorol drwyddo draw i ddisgrifio'r gerddoriaeth y maen nhw'n gwrando arni

**Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r term am gyflymder y gerddoriaeth?** | Tempo |
| **Beth yw 'dynameg' mewn cerddoriaeth?** | Pa mor uchel neu dawel y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| **Beth yw enw'r offeryn llinynnol sy'n cael ei chwarae a'i gwddw i fyny fel gitâr?** | Sitar |
| **Beth yw'r gair am grŵp o nodau wedi'u trefnu fesul gris o ran traw i fyny neu i lawr?** | Graddfa |
| **Beth yw cyfres o 8 nodyn graddfa gerddorol lle mae'r nodyn cyntaf a'r olaf 8 nodyn ar wahân?** | Wythfed |
| **Beth yw'r gair am set benodol o nodau a chwaraeir mewn trefn benodol, yn aml ar sitar?** | Raga |

© BBC 2024

# GWERS 2

Raga Yaman

*Bwriad dysgu*

- Gwerthfawrogi a deall beth yw Raga Yaman
- Byrfyfyrio gan ddefnyddio nodau penodol
- Perfformio alawon gan ddefnyddio offerynnau cerdd a dilyn nodau ar gyfer y raga

*Cyn y wers*

- Dylai'r athro/athrawes wrando ar raddfa'r Raga Yaman a'i chwarae
- Paratowch yr ystafell ddosbarth gydag offerynnau, allweddellau, Glockenspiels neu iPads gyda GarageBand
- Sicrhewch fod trac sain Sun Sundar Sargam yn barod
- Argraffwch yr adnoddau ategol perthnasol (Geiriau Sun Sundar Sargam, Adnoddau)

## 1. PARATOI

Mae'r plant yn mynd i ddysgu hanfodion beth yw Raga Yaman a sut y gallant ei ddefnyddio.

Gofynnwch a ydyn nhw'n cofio beth yw raga o'r wers ddiwethaf (cyfres o nodau ydi raga sy'n cael ei defnyddio mewn cerddoriaeth Indiaidd i greu'r dôn).

Maen nhw'n mynd i ddefnyddio allweddellau neu glockenspiels mewn parau, gan ddefnyddio'r nodau canlynol ar gyfer y raga:

| Ni | Re | Ga | Ma | Da | Ni | Sa* | Sa* | Ni | Da | Pa | Ma | Ga | Re | Sa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | D | E | Gb | A | B | C | C | B | A | G | Gb | E | D | C |

Y syniad yw mai dim ond y nodau hyn y bydd y myfyrwyr yn eu defnyddio yn eu cyfansoddiad.

## 2. GWEITHGAREDD

Yn gyntaf, dylid eu cael nhw i ymarfer chwarae nodau'r raga yn y drefn gywir. Rhannwch y daflen adnoddau (gweler adran raga) a'u cael i nhw i geisio'i chwarae i fyny ac i lawr nes eu bod yn gallu ei chwarae'n rhugl.

Nesaf, gadewch i un o'r myfyrwyr roi cynnig ar chwarae'r un nodau penodol mewn trefn wahanol. Gallant gymryd eu tro i chwarae'n fyrfyfyr, gan fod hyn yn digwydd yn gyffredin mewn cerddoriaeth Indiaidd draddodiadol.

© BBC 2024

Esboniwch i’r myfyrwyr beth yw drôn. Sain hir estynedig heb amrywiad ydi drôn a ddefnyddir i greu effaith atmosfferig neu amgylchol. Mae’n nodyn a chwaraeir drosodd a throsodd yn y cefndir, sy’n gallu swnio ychydig fel rhywun yn hymian un nodyn hir.

### 3. Y BRIF DASG

Rhowch y plant mewn parau.

Mae’r plant yn dewis **Pa** neu **Sa** (G neu C – gweler y daflen waith *Adnoddau*) ar gyfer eu drôn: dylid ei chwarae ar y bysellfwrdd neu glockenspiels. Unwaith y byddant wedi penderfynu pa nodyn i’w ddefnyddio, rhowch ychydig funudau iddynt ymarfer ei chwarae dro ar ôl tro. Dylent chwarae’n araf, gan ganiatáu i’r nodyn farw’n naturiol cyn ei chwarae eto.

Unwaith y maen nhw’n hapus gyda’r ffordd y mae’n swnio, dylai un person o bob pâr ddal i chwarae’r drôn, tra bod y llall yn chwarae’r raga ochr yn ochr. Dylai’r un sy’n chwarae’r raga ddechrau yn y drefn a nodwyd, ond pan fydd yn hyderus, gall ddechrau byrfyfyrio (tra’n dal i sicrhau eu bod yn cadw at y nodau penodol).

Gwnewch yn siŵr bod y ddau fyfyriwr ym mhob pâr yn cael cyfle i chwarae’r raga a’r drôn, gan newid i’r nodyn drôn arall hefyd os dymunir.

Eglurwch i’r plant mai’r Tanpura yw’r offeryn a ddefnyddir i greu’r effaith drôn mewn cerddoriaeth Indiaidd. Ceir effaith estynedig pan gaiff y tant ei blycio.

Yn Sun Sundar Sargam, mae Reena Esmail yn aml yn defnyddio’r lleisiau fel y drôn. Er enghraifft, yn agoriad y darn, y lleisiau sy’n chwarae’r drôn.

### 4. SESIWN GLOI

Gofynnwch i’r plant wrando ar Sun Sundar Sargam eto, gan graffu i glywed sut mae’r effaith drôn yn cael ei chreu yn y gerddoriaeth (defnyddio’r lleisiau).

Dylai’r myfyrwyr ddangos y gwaith sydd ganddynt ar y gweill i grŵp arall a chael adborth. Gofynnwch i’r myfyrwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth roi adborth:

- Ydyn nhw wedi defnyddio’r nodyn Pa neu Sa?
- Pa mor llyfn mae’n cael ei chwarae?
- Allan nhw hymian neu ganu nodau Pa neu Sa?
- Ydi’r raga yn chwarae mewn amser gyda’r drôn?

***Asesu cynnydd a dealltwriaeth myfyrwyr***

**Myfyrwyr sydd â dealltwriaeth sicr:** Defnyddio nodau cywir y raga, cyd-chwarae gyda drôn.

**Myfyrwyr sy’n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** Dangos mwy o wreiddioldeb wrth arbrofi gyda’r raga a chwarae mewn amser gyda’r drôn.

© BBC 2024

*Gwahaniaethu*

**Myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol:** Efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio sticeri ar y nodau sydd eu hangen ar gyfer y Raga Yaman.

**Myfyrwyr sy'n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** Dylent ystyried sut i chwarae gan gadw amser gyda'r drôn.
Dylent arbrofi gyda drôn uwch neu dawelach

**Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw Raga?** | Set benodol o nodau wedi'u chwarae mewn trefn benodol, fel graddfa, yn aml ar sitar. |
| **Beth yw enw'r math o Raga sy'n cynnwys pob un o'r saith nodyn mewn wythfed?** | Raga Yaman |
| **Beth yw'r gair am sain hir estynedig heb amrywiad? Fe'i defnyddir yn aml i greu effaith atmosfferig neu amgylchol** | Drôn |
| **Beth yw Tanpura?** | Offeryn plycio llinynnol traddodiadol â gwddw hir, yn debyg o ran golwg i'r sitar |

© BBC 2024

# GWERS 3

Tala

*Bwriad dysgu*

- Dysgu a deall curiadau cryf a gwan mewn talas Indiaidd
- Creu darn o gerddoriaeth gan ddefnyddio drôn, raga a tala
- Perfformio tala Tintal (cylch amser 16 curiad) gyda chof clust cynyddol

*Cyn y wers*

- Dylai'r athro/athrawes wrando a chwarae graddfa Raga Yaman
- Paratowch yr ystafell ddosbarth gydag offerynnau gan gynnwys drymiau llaw fel bongos neu djembes, allweddellau, Glockenspiels neu iPads gyda GarageBand
- Sicrhewch fod trac sain Sun Sundar Sargam yn barod
- Argraffwch yr adnoddau ategol perthnasol (Geiriau Sun Sundar Sargam, Adnoddau)

## 1. PARATOI

Yn y wers ddiwethaf, dylai'r plant fod wedi meistroli eu ragas a deall symlrwydd y drôn. Heddiw, maen nhw'n mynd i ddysgu am drydedd elfen cerddoriaeth Indiaidd: y tala, sydd, yn syml, yn chwarae rhythm ailadroddus sy'n mesur amser cerddorol.

Mae gan y rhythm y byddant yn ei ddefnyddio bedwar sain gwahanol. Mae pob gair yn cynrychioli sain wahanol a chwaraeir ar y bwrdd/drwm (Dha, Dhin, Ta a Tin).

**TALA**

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dha | Dhin | Dhin | Dha | Dha | Dhin | Dhin | Dha | Dha | Tin | Tin | Ta | Ta | Dhin | Dhin | Dha |

## 2. GWEITHGAREDD

Rhannwch y myfyrwyr yn barau.

Gorau oll os bydd gennych ddrymiau llaw fel bongos neu djembes (drymiau Affricanaidd). Rhowch un i'w rannu i bob pâr a'u cael i nhw i greu pedwar sŵn gwahanol gan ddefnyddio dim ond y drwm hwnnw. Gallant wneud pedwar sŵn gwahanol trwy chwarae gyda gwahanol rannau o'u dwylo ac ar wahanol rannau o ben y drwm (y croen).

Unwaith y byddan nhw wedi creu pedair sain wahanol, mae angen rhoi un o'r enwau (Dha, Dhin, Ta neu Tin) ar bob sain er mwyn gallu chwarae'r rhythm.

© BBC 2024

Unwaith y byddan nhw wedi rhoi enw i bob sain, gallant roi cynnig ar chwarae'r rhythm ar eu drymiau.

Eglurwch ein bod ni'n mynd i ddysgu math cyffredin o tala o'r enw Tintal. Mae ganddo 16 o guriadau ac mae gweithredoedd i nodi'r curiadau cryf a gwan.

Edrych ar grid Tala isod y Tala ac ymarfer y rhan hon o'r tala Tintal gyda'ch gilydd. Mae clap yn nodi'r curiad cryf cyntaf. Ailadroddwch hyn sawl gwaith.

Yn gyntaf, dywedwch y rhifau'n uchel:

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CLAP** | 2 | 3 | 4 | **CLAP** | 2 | 3 | 4 | **CLAP** | 2 | 3 | 4 | **CLAP** | 2 | 3 | 4 |

Nesaf, dywedwch y rhifau yn eich pen yn unig:

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CLAP** | -- | -- | -- | **CLAP** | -- | -- | -- | **CLAP** | -- | -- | -- | **CLAP** | -- | -- | -- |

**3. Y BRIF DASG**

Edrychwch ar y tabl isod o grid Tala (grid 16 blwch – hefyd ar gael ar dudalen 2 y daflen waith adnoddau) ac ymarferwch hwn gyda'ch gilydd. Rhannwch y dosbarth yn ddau – dylai hanner y dosbarth ddilyn ystumiau'r llaw gyda'r cyfri, a gall yr hanner arall chwarae'r patrymau drwm (Dha, Dhin, Ta a Tin). Wedyn gallwch chi newid drosodd.

| **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** | **16** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dha | Dhin | Dhin | Dha | Dha | Dhin | Dhin | Dha | Dha | Tin | Tin | Ta | Ta | Dhin | Dhin | Dha |
| **CLAP** | 2 | 3 | 4 | **CLAP** | 6 | 7 | 8 | **RHOI** | 10 | 11 | 12 | **CLAP** | 14 | 15 | 16 |

Mae ystum 'rhoi' bellach wedi'i hychwanegu at y 9fed curiad gwan (sef gwneud ystum â'r llaw yn debyg i gyflwyno rhywbeth i rywun, â chledr y llaw i fyny). Gwyliwch y ffilm i weld hyn ar waith, neu dyma chwaraewr sitar Ten Pieces, Debipriya, yn dangos hyn:



© BBC 2024

Ceisiwch berfformio'r tala cyfan gyda'ch gilydd, yn gyntaf gan ddweud y rhifau'n uchel gyda'r ystumiau, yna dweud y rhifau yn eich pen yn unig. Ar ôl cyrraedd 16, ewch yn syth yn ôl i 1.

Unwaith y byddwch chi wedi perfformio'r tala Tintal cyflawn ychydig o weithiau, eglurwch fod y plant yn mynd i adeiladu eu darn eu hunain. Gallwch hefyd ddefnyddio'r grid gwag yma.

Gan mai'r curiad cyntaf yw'r pwysicaf mewn tala Indiaidd, dylai plant bob amser roi clap ar hwn. Erbyn hyn dylai fod gan bob pâr: drôn, raga a thala, a nawr maen nhw'n mynd i roi'r holl elfennau hyn at ei gilydd. Dylai pawb gael rhoi cynnig ar bob rhan.

***Asesu cynnydd a dealltwriaeth myfyrwyr***

**Myfyrwyr sydd â dealltwriaeth sicr:** defnyddio nodau cywir y tala tintal, gallu datblygu dealltwriaeth o guriadau cryf a gwan, gallu cyfrif gan ddefnyddio'r llais yn eu pen a chynnal pwls cyson

**Myfyrwyr sy'n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** dangos yr acenion cryf ar guriadau 1, 5 ac 13 a dangos yr acen wan ar guriad 9

***Gwahaniaethu***

**Myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol:** efallai y bydd angen iddynt ddefnyddio sticeri ar y nodau sy'n nodi'r pwyntiau cryf a gwan yn y cylch tintal, cefnogaeth i gynnal pwls cyson

**Myfyrwyr sy'n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** dylent berfformio gyda mwyfwy o gywirdeb a chof clust

**Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r gair am batrwm a gwahanol hyd seiniau?** | Y rhythm |
| **Beth yw'r curiad?** | Pwls cyson sy'n bresennol trwy ddarn o gerddoriaeth, fel curiad calon. Gall gyflymu neu arafu. Mae yna guriadau cryf a churiadau gwan. |
| **Sawl curiad sydd gan y Tala Tintal?** | 16 (4 + 4 + 4 + 4) |

© BBC 2024

# GWERS 4

Perfformio

Bwriad dysgu

- Defnyddio elfennau drôn, raga a tala
- Addasu dynameg a thraw yn ôl y raddfa raga
- Gweithio fel grŵp i berfformio darn o gerddoriaeth
- Cadw mewn amser, cyfathrebu a gwybod fy rôl yn y grŵp

*Cyn y wers*

- Sicrhewch fod gan y plant y darn i'w berfformio wrth law
- Sicrhewch fod yr holl offerynnau angenrheidiol ar gael, gan gynnwys offerynnau'r myfyrwyr eu hunain (os ydych yn eu defnyddio)
- Dyfais i recordio'r perfformiadau fel tystiolaeth

## 1. PARATOI

Gofynnwch i'r plant fynd yn ôl i'w grwpiau o Wers 3 ac ymarfer eu darnau o gerddoriaeth.

Atgoffwch y plant y byddant yn perfformio'r darnau hyn ymhen deng munud, felly mae angen iddynt ddefnyddio'u hamser yn ddoeth i wneud unrhyw newidiadau neu welliannau i'w darn.

Gofynnwch y cwestiynau allweddol a thrafodwch y meini prawf llwyddiant i sicrhau bod pawb yn gwybod beth maen nhw'n gweithio tuag ato.

## 2. Y BRIF DASG

Bydd y plant nawr yn perfformio fel dosbarth. Gwnewch recordiad fideo neu sain o hyn er mwyn asesu'r canlyniad.

Gwahoddwch bob grŵp fesul un i berfformio eu darn o gerddoriaeth.

Chwaraewch y recordiad fideo neu sain yn ôl i'r myfyrwyr a gofyn y cwestiynau canlynol, gan geisio cael y plant i wneud sylwadau ar y darn o gerddoriaeth ei hun ac ar y ffordd y cafodd ei berfformio:

- Beth oedd y rhan orau o'r gerddoriaeth?
- Beth oedd y peth gorau am y perfformiad?
- Beth allen nhw ei wella?

Gofynnwch i'r plant ddatrys unrhyw broblemau a allai godi nes bod pawb yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud a'ch bod chi'n barod am y perfformiad.

© BBC 2024

## 3. SESIWN GLOI

Gofynnwch i'r plant ddweud wrthych bopeth maen nhw wedi'i ddysgu yn ystod y gwersi. Canolbwyntiwch ar y sgiliau cerddorol maen nhw wedi'u datblygu ac anogwch nhw i ddefnyddio terminoleg gerddorol lle bo hynny'n briodol yn eu hatebion.

Yn olaf, rhowch y dosbarth ar lwyfan gan wahodd dosbarth arall/yr ysgol gyfan i glywed eich cerddoriaeth a chael clywed am eich taith gerddorol gyda Raga Yaman.

***Asesu cynnydd a dealltwriaeth myfyrwyr***

**Myfyrwyr sydd â dealltwriaeth sicr:** gallu gweithio fel grŵp i berfformio darn o gerddoriaeth

**Myfyrwyr sy'n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** gallu cymryd rôl arweiniol mewn grŵp i berfformio darn o gerddoriaeth

***Gwahaniaethu***

**Myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol:** gellid eu grwpio gyda'i gilydd a chithau yn eu cefnogi

**Myfyrwyr sy'n gweithio mewn mwy o ddyfnder:** dylent helpu i gefnogi'r dosbarth yn y broses o greu cerddoriaeth

**Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw ystyr dynameg cerddoriaeth?** | Pa mor uchel neu ddistaw y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| **Beth yw'r gair am sain hir estynedig heb amrywiad? Fe'i defnyddir yn aml i greu effaith atmosfferig neu amgylchol** | Drôn |
| **Beth yw Raga?** | Set benodol o nodau a chwaraeir mewn trefn benodol, fel graddfa, yn aml ar sitar. |
| **Beth yw enw'r math o Raga sy'n cynnwys pob un o'r saith nodyn mewn wythfed?** | Raga Yaman |
| **Beth yw'r enw ar batrwm neu frawddeg rhythmig wedi'i osod i gylch o amser?** | Tala |
| **Beth yw enw'r Tala sy'n cynnwys 16 curiad?** | Tala tintal |

© BBC 2024

**CAMAU PELLACH**

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

- **DAEARYDDIAETH/YMCHWIL:** Offeryn Indiaidd traddodiadol yw'r sitar. Dewiswch 3 gwlad wahanol o unrhyw le yn y byd ac ymchwiliwch i'w hofferynnau cerddorol traddodiadol, sut siâp sydd iddyn nhw a sut maen nhw'n swnio.

- **GWAITH CELF:** Dyfeisiwch offeryn cerdd newydd sbon! Tynnwch lun eich offeryn ar ddarn o bapur a labelwch y llun gan feddwl am sut mae'n edrych, sut mae'n swnio a pham mae'n edrych fel hyn.

**GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR**

| **TERM** | **DIFFINIAD** |
|---|---|
| Drôn | Synau hir estynedig heb amrywiad a ddefnyddir i greu effaith atmosfferig neu amgylchol |
| Dynameg | Pa mor uchel neu ddistaw y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| Offerynnau di-draw | Offerynnau heb seiniau ar drawiau gwahanol, na ellir eu defnyddio i chwarae alaw, e.e. triongl |
| Offerynnau traw | Offerynnau â gwahanol drawiau, y gellir eu defnyddio i chwarae alaw neu dôn, e.e. glockenspiel |
| Pwls | Curiad cyson sy'n rhedeg trwy'r gerddoriaeth |
| Raga | Set benodol o nodau a chwaraeir mewn trefn benodol, fel graddfa, yn aml ar sitar. |
| Raga Yaman | Math o raga sy'n cynnwys pob un o'r saith nodyn mewn wythfed. Mae'n raga hwyrol a chwaraeir rhwng 7 a 10 o'r gloch sy'n rhamantus ei natur ac yn dynodi hapusrwydd, dedwyddwch, tawelwch ac ymgysegriad |
| Rhythm | Patrwm o synau o wahanol hyd |
| Sitar | Offeryn llinynnol o Ogledd India sy'n cael ei chwarae ar eich eistedd ac sy'n edrych yn debyg i gitâr (er y gall sitar gael hyd at 21 tant, tra mai chwe thant sydd gan gitâr) |
| Tabla | Drwm Indiaidd traddodiadol |
| Tala | Patrwm neu frawddeg rhythmig wedi'i osod i gylch o amser |
| Tanpura | Offeryn plycio llinynnol traddodiadol â gwddw hir, yn debyg o ran golwg i'r sitar |
| Tempo | Cyflymder y gerddoriaeth |
| Tintal | Y tala mwyaf cyffredin, sy'n cynnwys 16 curiad (4 + 4 + 4 + 4) |
| Tôn | Yn cyfeirio at ansawdd sain penodol e.e. tôn uchel, tôn dwfn, tôn ysgafn ac ati. |

© BBC 2024